Fy - Iechyd Ar-Lein
My Health Online

Mae gennych hawl dan y ddeddfwriaeth diogelu data i gael mynediad at, neu weld y wybodaeth sydd gan y feddygfa amdanoch. I wneud cais, cysylltwch â'ch meddygfa.

Fel arall, mae gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein yn cynnig ffordd arall i chi weld eich cofnodion iechyd.

Am ragor o fanylion, ewch i'n gwefan:

gggc.gig.cymru/fyiechydarlein
nwis.nhs.wales/myhealthonline

GIG CYMRU NHS WALES

beth sydd angen i chi ei wybod am eich cofnodion Fy Iechyd Ar-lein

GIG CYMRU NHS WALES



Oeddech chi'n gwybod y gallwch ddefnyddio ffôn symudol, llechen neu gyfrifiadur i drefnu neu ganslo apwyntiad gyda'ch meddyg teulu, neu wneud cais am bresgripsiwn amlroddadwy?

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cofrestru i ddefnyddio gwasanaethau Fy Iechyd Ar-lein.

Hefyd, gallwch ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein i weld eich meddyginiaethau a'ch alergeddau. Gall cleifion mewn rhai meddygfeydd weld eu cofnod meddyg teulu, a allai gynnwys imiwneiddiadau'r claf.

Yn debyg i fancio ar-lein, gallwch gofrestru ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau ar-lein gan eich meddyg teulu, er y bydd y rhain yn amrywio o un feddygfa i'r llall, a bydd yn dibynnu ar beth mae eich meddygfa'n ei gynnig.

Mae Fy Iechyd Ar-lein yn ffordd arall o gysylltu â'ch meddygfa. Bydd modd i chi ei ffonio neu fynd i'r feddygfa o hyd.

Dechrau arni

Os hoffech gofrestru ar gyfer gwasanaethau Fy Iechyd Ar-lein, siaradwch â'ch meddygfa neu ewch i'r wefan gggc.gig.cymru/fyiechydarlein

Bydd angen i'ch meddygfa wirio pwy ydych chi er mwyn sicrhau mai chi yn unig all weld eich cyfrif Fy Iechyd Ar-lein. Bydd angen i chi lenwi a llofnodi ffurflen fer a dangos dull adnabod â ffotograff, fel pasbort neu drwydded yrru.

Er mwyn ei gwneud hi'n haws dechrau arni, gallwch drefnu eich apwyntiad cyntaf ar-lein heb gyfrif Fy Iechyd Ar-lein. Pan fyddwch yn mynd i'r feddygfa ar gyfer eich apwyntiad, bydd angen i'r feddygfa wirio manylion eich dull adnabod er mwyn cwblhau'r broses gofrestru.

Pam defnyddio Fy Iechyd Ar-lein?

Mae gwasanaethau ar-lein yn ffordd arall o gysylltu â'ch meddygfa:

- Gallwch eu defnyddio i drefnu a chanslo apwyntiadau ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus i chi.
- Nid oes angen i chi deithio'n arbennig i'ch meddygfa i ofyn am bresgripsiwn amlroddadwy.
- Gallwch edrych ar eich cofnod meddyg teulu i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich apwyntiad nesaf gyda'ch meddyg teulu neu arbenigwr, ac amlygu a oes rhywbeth y mae angen i chi ei drafod.
- Gall gweld eich cofnod meddyg teulu eich helpu i gofio a deall trafodaethau â'ch meddyg teulu, efallai y byddech yn eu hanghofio fel arall.
- Efallai y bydd pobl sydd â chyflyrau iechyd tymor hir yn gweld bod edrych ar ganfyddiadau archwiliadau, gan gynnwys pwysedd gwaed, yn eu helpu i reoli eu gofal eu hunain, a gallant weld a yw eu cyflwr yn gwella neu'n gwaethygu.
- Efallai bydd modd i chi ddod o hyd i'r atebion i gwestiynau am eich iechyd heb orfod siarad â meddyg. Er enghraifft, os hoffech wirio pryd oedd y tro diwethaf i chi gael brechiad.
- Gallwch sicrhau bod eich gwybodaeth feddygol yn gywir ac wedi'i diweddaru. Gallwch ddweud wrth eich meddyg os oes gennych alergedd ac nid yw wedi'i gofnodi.

Deall eich cofnod

Cyn i chi gofrestru i weld eich cofnod meddyg teulu yn fwy manwl, mae rhai pethau i'w hystyried. Caiff cofnodion meddygol eu hysgrifennu:

- gan ddefnyddio codau penodol er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei gofnodi'n gyson ac yn gywirand accurately.
- i helpu gweithwyr gofal proffesiynol i ofalu amdanoch.
- yn Saesneg, sef yr iaith a ddefnyddir i gofnodi gofal clinigol yn y Deyrnas Unedig.

Yn y dyfodol, efallai y byddwch yn gallu gweld canlyniadau profion a gohebiaeth o'r ysbyty yn Fy Iechyd Ar-lein, ond nid yw hyn ar gael ar hyn o bryd.